# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI’R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 12 EBRILL 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | C R Doyle | M B Lewis |
| P Lloyd | T M White | |

**Swyddog(ion)**
Keith Coxon

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R D Lewis, P M Matthews a/ac P B Smith

### 70 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 71 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017 fel cofnod cywir.

### 72 YMWELIAD SAFLE Â'R SIOP AILDDEFNYDDIO - Y DIWEDDARAF. (LLAFAR)

Cyfeiriodd y cadeirydd at yr ymweliad safle diweddar a dywedodd fod y siop eisoes wedi'i hehangu. Dywedodd y byddai Keith Coxon, Rheolwr Glanhau, a Thomas Williams, y Swyddog Ailgylchu, yn darparu manylion ar weithredu'r siop a'i chostau.

Adroddwyd gan y Rheolwr Glanhau a'r Swyddog Ailgylchu fod yr estyniad wedi arwain at gynnydd gwerthiant ac incwm. Ar hyn o bryd, ceir 5 aelod o staff, 3 asiantaeth, 1 gweithiwr cyngor llawn amser ac 1 gweithiwr hunangyflogedig (technegydd teledu). Mae 2 aelod o staff yn gweithio'n rhan-amser, 2-3 o ddyddiau'r wythnos.

Cynhaliwyd cyfweliadau i benodi staff asiantaeth i 8 swydd barhaol.
Disgwyliwyd penodi 9 o staff yng Nglanfa Pipehouse. Byddai 18 o staff asiantaeth yn cael eu cyflogi yn ystod yr wythnosau nesaf. Fodd bynnag, byddai bob amser angen cadw 'cronfa' o staff asiantaeth er mwyn cyflenwi yn ystod cyfnodau o salwch etc.

Mabwysiadwyd ymagwedd sensitif er mwyn penderfynu ar rolau a oedd yn addas i unigolion ag anghenion arbennig.

Y bwriad oedd penodi 4 hyfforddeiaeth (sy'n debyg i brentisiaeth) am gyfnod o 9 mis. Byddant yn derbyn hyfforddiant ym mhob agwedd ar reoli gwastraff. Byddai'r hyfforddeiaethau yn galluogi i staff asiantaeth gael cyflogaeth amser llawn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, cadarnhaodd swyddogion y canlynol:

- Mae'r estyniad wedi arwain at gynnydd mewn trosiant i £130,000 gydag elw o £43,000 yn ystod y flwyddyn ariannol ddiweddaf. Dyma'r elw ac arbedion tirlenwi cyfunedig sy'n deillio o'r siop. Roedd elw o'r siop yn £28,000, a'r arbediad tirlenwi amcangyfrifedig yn £15,000.
- Byddai'r elw yn cael ei sianelu i'r gyllideb rheoli gwastraff.
- Roedd gweithredu'r siop wedi arwain at arbedion costau tirlenwi gwerth £15,000.
- Er cafodd y polisi prisio ei symleiddio, nod y siop oedd dargyfeirio gwastraff o dirlenwi a darparu ffordd i unigolion ar incwm isel brynu eitemau am bris fforddiadwy.
- Profir yr holl eitemau trydanol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben cyn iddynt gael eu gwerthu.
- Mae staff yn brofiadol wrth benderfynu ar brisoedd addas a labeli eitemau ar sail hynny awr cyn i'r siop agor i'r cyhoedd.
- Caiff eitemau sydd ar werth eu harddangos mewn cabinet neu maent yn cael eu harwerthu ar gyfrif Ebay'r cyngor.
- Cafwyd problemau gydag unigolion yn prynu mewn llwyth er mwyn ailwerthu mewn arwerthiannau cist car.
- Roedd argaeledd eitemau ar gyfer ailwerthu yn dibynnu ac ni ellid ei warantu.
- Mae'r til yn rhestru nifer yr eitemau a werthwyd ac yn darparu disgrifiad cryno ohonynt a'u pwysau (er mwyn gallu nodi'r mesurau cywir y gellid eu cynnwys mewn targedau ailgylchu).
- Newidiwyd cynllun y siop er mwyn rhoi gweithrediad mwy proffesiynol a hwylus iddi.
- Roedd gwaith gydag elusennau lleol ynghylch stoc sydd dros ben yn parhau.
- Byddai prisio addurniadau yn cael ei archwilio.
- Roedd y siop wedi denu llawer o sylw cadarnhaol iawn a derbyniwyd adborth calonogol iawn ar ôl ymweliadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru, CLILC ac awdurdodau lleol eraill.
- Ceir cynwysyddion storio yng nghefn y siop ar gyfer unrhyw stoc sydd dros ben.
- Mae gan bob un o'r 5 safle amwynder gynwysyddion ar gyfer eitemau y gellir eu hailddefnyddio.
- Roedd y siop yn y broses o gael ei hailbrandio gydag enw newydd, 'Tip Treasures', arwyddion a chyfarwyddiadau.
- Nid archwiliwyd defnyddio trydydd parti i reoli'r siop ymhellach oherwydd teimlwyd nad oedd y siop wedi cyrraedd ei photensial llawn eto. Yn ogystal â hynny, nod y siop yw darparu eitemau fforddiadwy i aelodau'r gymuned sy'n byw mewn tlodi, a byddai comisiynu trydydd parti i reoli'r siop yn newid y prisio'n sylweddol oherwydd byddant yn anochel yn canolbwyntio ar wneud elw.
- Tâl yr unigolyn hunangyflogedig yw £100 yr wythnos ac mae'n atgyweirio setiau teledu ar gyfer eu hailwerthu yn y siop (a fyddai fel arall yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi). Mae'r trefniad hwn wedi gweithio'n dda ac mae'r cyhoedd yn cael eu denu i'r siop i brynu setiau teledu wedi'u hatgyweirio ac eitemau eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**PENDERFYNWYD** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 73 NEILLTUO STRYD Y GWYNT I GERDDWYR - CAMAU NESAF (DIWEDDARIAD AR LAFAR).

Dywedodd y cadeirydd fod Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd yn anfon ymddiheuriadau ac ni ddaeth Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant.

Mynegodd aelodau'r pwyllgor siom a phryder am ddiffyg cynnydd.

**PENDERFYNWYD** y dylai'r cadeirydd symud y broses yn ei blaen gydag aelod y cabinet dros yr amgylchedd a chludiant.

## 74 Y DIWEDDARAF GAN Y CADEIRYDD (LLAFAR).

Ni chafwyd unrhyw ddiweddariadau.

## 75 CYNLLUN GWAITH A CHAMAU GWEITHREDU PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET AR DDATBLYGU 2016-2017.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cynnwys Strategaeth Mannau Agored yn y cynllun gwaith, i'w ystyried gan aelodau yn y flwyddyn ddinesig newydd.
2. Nodi'r cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.50 am

**CADEIRYDD**